Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

**2.00yp Dydd Iau 16 Tachwedd 2017**
**Ystafell Caer, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Caerfyrddin**

**COFNODION**

| **Yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Cyng. Emlyn Dole (Is-gadeirydd) | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Ruth Mullen | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Prif-Arolygydd Steve Thomas | Heddlu Dyfed Powys |
| Anna Bird | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ros Jervis | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Rob Quin | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Adrian Nicholas | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Cyng. Jan Curtice | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Athro Jean White | Llywodraeth Cymru |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Carys Morgans | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Jonathan Feild | Adran Gwaith a Phensiynau |

| **Hefyd yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kate Thomas | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Anthony Maynard | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Chris Dawkins | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Amy Hawkins | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Craig Jones | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

| **Ymddiheuriadau** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Barry Liles (Cadeirydd) | Coleg Sir Gâr |
| Mark James | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Wendy Walters | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Carys Wynne Morgan | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Christine Harley | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| John Cook | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Jane Davidson | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Bernardine Rees | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Sarah Jennings | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

- Croesawodd y Cynghorydd Emlyn Dole bawb i'r cyfarfod a dywedodd ei fod yn cadeirio ar ran Barry Liles. Cyflwynodd pawb ei gilydd o gwmpas y bwrdd. Rhoddwyd croeso cynnes i Ruth Mullen, a oedd yn bresennol ar ran Mark James, a hefyd i Anthony Maynard a Chris Dawkins.

| 2. Cofnodion a Materion yn Codi: 14 Medi 2017 |
|---|

- Nodwyd bod y Cynghorydd Jan Curtice wedi anfon ymddiheuriad i'r cyfarfod diwethaf.
- Gyda'r newid hwn, cytunwyd bod y cofnodion yn wir a chywir.
- Trafodwyd y camau gweithredu a rhoddir y newyddion diweddaraf pan fo'n briodol.
- Cadarnhawyd bod Barry Liles yn eistedd ar Fforwm Rhanddeiliaid Fforest Brechfa a'i fod yn sicrhau bod materion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu mynegi.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Gwyneth Ayers i ymgymryd â gwaith pellach gyda phartneriaid ynghylch rhannu gwybodaeth cyn bydd hynny'n cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr. |

- Diolchwyd Anna Bird, Barry Liles a Polly Sills-Jones am eu gwaith pellach ar y Cynllun Llesiant drafft sy'n destun ymgynghoriad hyd 3 Ionawr 2018. Hyd yn hyn, roedd 51 o ymatebion wedi dod i law. Rhoddir ystyriaeth i'r drafft terfynol yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr, ynghyd â chanlyniad y sesiwn ar 7 Rhagfyr 2017 gydag aelodau'r Grŵp Cyflawni Gweithredol a fydd yn ystyried sut y llwyddir i wneud cynnydd ar y camau gweithredu byrdymor.
- Nodwyd gan grŵp gorchwyl a gorffen y Cyngor ar Dlodi, oedd yn canolbwyntio ar ardal Tyisha, fod nifer o brosiectau wedi'u cynllunio ar gyfer ardal Heol yr Orsaf/Tyisha. Mae'r rhain yn ychwanegol at y dull 'Rheoli Cymdogaeth' a drafodwyd yn flaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys Plant yn Gyntaf, adfywio canol tref, tai ac adfywio'r orsaf drenau ac mae'n bwysig sicrhau yr ymgysylltir â'r gymuned mewn ffordd gydlynus.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Pawb i roi gwybod am unrhyw brosiectau eraill sy'n mynd rhagddynt yn ardal Heol yr Orsaf/Tyisha. |

- Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyllid i dalu am gostau Adolygiadau Dynladdiad Domestig wedi cael eu nodi yn dilyn trafodaeth â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Fel y cytunwyd yn flaenorol, byddai adroddiad cryno yn cael ei anfon at bartneriaid statudol diogelwch cymunedol i drafod cyfraniadau at gostau o'r fath.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Kate Thomas i ddosbarthu adroddiad cryno ynghylch costau Adolygiadau Dynladdiad Domestig i bartneriaid statudol diogelwch cymunedol. |

- Ystyried y trefniadau partneriaeth presennol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant. Bydd dogfen Llywodraethu Partneriaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol, a ddarperir gan Anna Bird, yn cael ei defnyddio i gynorthwyo yn y broses hon.
- Rhoddodd yr Athro Jean White wybod i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y bydd Strategaeth Dementia newydd yn cael ei lansio'n fuan gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod gan yr aelodau.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Gwyneth Ayers i ystyried Strategaeth Dementia Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. |

| 3. Gohebiaeth |
|---|

- Ystyriwyd llythyr gan Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro at Gadeirydd byrddau Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Cynigiwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro fod gwerth mewn cydlynu elfennau o waith y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn rhanbarthol yn dilyn llwyddiant y dull rhanbarthol o ddatblygu'r Asesiadau Llesiant a'r cynlluniau drafft. Mae

rhai o bartneriaid y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynychu byrddau eraill yn yr ardal ac roedd hwn yn gyfle i ddyblygu llai a hyrwyddo rhagor o gydweithio. Fel man cychwyn, cynigiodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro y dylid cynnal seminar neu gyfarfod anffurfiol o'r aelodau ddwywaith y flwyddyn neu'n flynyddol.

- Siaradodd nifer o'r aelodau o blaid y cynnig gan grybwyll y byddai'n atal dyblygu ac y byddai cyfarfod ar y cyd yn gallu ystyried materion sydd o ddiddordeb i bob bwrdd lleol, megis y Strategaeth Dementia. Nodwyd y byddai'n bwysig dod o hyd i'r lleoliad cywir ar gyfer cyfarfodydd o'r fath.
- Cytunwyd i gefnogi'r cynnig.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Anfon ymateb y Cadeirydd i lythyr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. |

**4. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – y diweddaraf am y cyd-strategaeth ranbarthol**

- Disgrifiodd Anthony Maynard y trefniadau rhanbarthol newydd ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a fynychir gan aelodau ar lefel Cyfarwyddwyr, wedi ymgymryd â rôl Bwrdd Gweithredol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a bydd yn gyfrifol am gyllid Llywodraeth Cymru ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys ardal Dyfed Powys. Sefydlwyd Bwrdd Strategaeth, gyda chynrychiolaeth ar lefel Penaethiaid Gwasanaeth, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r corff arweiniol a'r banciwr ar gyfer y cyllid rhanbarthol. Mae gan y Bwrdd Gweithredol dair prif dasg:
  1. Comisiynu un gwasanaeth ymgynghori annibynnol ar gyfer Trais Domestig ledled Dyfed Powys, a ariennir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol.
  2. Rhoi ar waith Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol erbyn Mai 2018. Cyd-strategaeth yw hon rhwng y Byrddau Iechyd a'r Cynghorau.
  3. Sefydlu trefniadau Comisiynu a Llywodraethu. Bydd y Grŵp hyfforddi - diogelu rhanbarthol yn arwain ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol sy'n cynnwys gofyniad ar i bob aelod o staff cyhoeddus gwblhau hyfforddiant Grŵp 1 ac ar i arweinwyr ymgymryd â hyfforddiant Grŵp 6.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Anthony Maynard i ddosbarthu strategaeth ranbarthol ddrafft i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr. |
| **GWEITHREDU:** | Anthony Maynard i ddosbarthu dolen i'r Hyfforddiant Grŵp 6 ar gyfer arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus. |

- Gofynnwyd amryw o gwestiynau gan aelodau. Cadarnhawyd bod tair lloches yn y sir ac mae adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae pob gwasanaeth yn cael ei fapio i lywio'r strategaeth a'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae gwasanaeth yr ymgynghorwyr annibynnol - trais domestig yn cael ei ddarparu ar draws yr ardal ar hyn o bryd ond mae'r darparwyr a'r trefniadau yn wahanol ym mhob sir; bydd hwn yn wasanaeth rhanbarthol o'r flwyddyn nesaf ymlaen a reolir gan un darparwr gwasanaeth. Gall sefydliadau partner atgyfeirio ac wrth i ymwybyddiaeth gynyddu a chyda'r hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' newydd yn cael ei gyflwyno i aelodau staff penodol mae'n debygol y bydd yr atgyfeiriadau yn cynyddu. Byddai angen caniatâd yr unigolyn i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, oni bai ei fod yn berson agored i niwed. Adolygir y llwybrau atgyfeirio fel rhan o'r Strategaeth i sicrhau bod goroeswyr a sefydliadau yn gwybod sut mae cael cymorth.
- Cadarnhaodd Marie Mitchell fod Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) yn gallu helpu i gynorthwyo darparwyr trydydd sector i weithio gyda'i gilydd.

**5. Credyd Cynhwysol – Cyflwyno'r Gwasanaeth Llawn ym mis Mawrth 2018**

- Disgrifiodd Jonathan Feild y gwasanaeth llawn fydd yn cael ei gyflwyno yn Sir Gaerfyrddin ar 28/3/18. Mae'r gwasanaeth newydd yn helpu pobl i weithio cymaint ag y gallant yn rhesymol.

Mae'r gwasanaeth mewn canolfannau gwaith wedi cael ei newid i ddarparu cymorth personol. Mae'r hawlydd a'r hyfforddwr gwaith yn cytuno ar 'Gontract Hawlydd' er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn. Drwy hyn fe allai fod yn ofynnol i hawlydd sengl, heb anabledd, chwilio am waith am hyd at 35 awr. O fis Chwefror 2018 ymlaen bydd y gwasanaeth llawn ar gael yn ddwyieithog. Mae hyfforddwyr gwaith hefyd yn cynnig cymorth yn y gwaith. Rhaid gwneud ceisiadau ar-lein ond nid yw'n wybyddus faint o ymgeiswyr sydd wedi cael cymorth i wneud cais yn y modd hwn. Nodwyd y byddai cymorth digidol da a ddarperir yn y sir yn helpu gydag anawsterau o ran natur wledig yr ardal.

- Cynhaliwyd digwyddiad rhwydweithio yn y sir gyda landlordiaid a grwpiau'r trydydd sector a gellid trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer partneriaid eraill.
- Mae angen aros chwe wythnos i dderbyn Credyd Cynhwysol ond gellir hawlio 50% o flaen llaw, sef benthyciad sydd i'w dalu o fewn chwe mis. Gellir ymestyn y cyfnod ad-dalu am dri mis pellach.
- Dechreuir cyflwyno'n raddol a bydd gwasanaeth llawn ym mhob ardal ar gyfer pob hawliad newydd erbyn Medi 2018.
- Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Prawf; gall Contract yr Hawlydd gynnwys gwirfoddoli ac ystod eang o ffyrdd o chwilio am waith, a nod i anelu ato yw'r contract 35 awr.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Pawb i gysylltu â Jonathan Feild os hoffech fynd i'r sesiynau i ddysgu rhagor am y gwasanaeth. |
| **GWEITHREDU:** | Gwyneth Ayers i ddosbarthu copi o'r cyflwyniad i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

- Mynegwyd pryder am ansawdd rhai ceisiadau am swyddi lle'r oedd yn amlwg nad oedd ymgeiswyr wedi gwneud fawr o ymdrech. Dywedodd Jonathan Feild y byddai adborth o'r fath yn werthfawr i Ymgynghorwyr Cyflogwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Jonathan Feild i rannu manylion yr Ymgynghorwyr Cyflogwyr gyda phartneriaid. |

Croesawyd Carys Morgans i'r cyfarfod.

## 6. Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif

- Rhoddodd Ros Jervis gyflwyniad byr a disgrifiodd Craig Jones y prosiect Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif, a fydd yn cael ei beilota ar draws y sir. Mae hyn yn rhoi sgiliau a hyder i staff y gwasanaethau cyhoeddus ddefnyddio eu hymwneud dyddiol â phobl eraill i'w cynorthwyo i wneud newid cadarnhaol i'w llesiant. Mae'r sefydliadau wedi nodi'r prif negeseuon a bydd y gwaith o hyfforddi'r 5-6 o bobl o bob sefydliad sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot yn digwydd ym mis Ionawr 2018. Bydd gwerthusiad yn digwydd pan fydd y cynllun peilot yn gorffen ym mis Mawrth 2018 er mwyn gweld pa mor aml y defnyddiwyd y sgiliau a nifer yr atgyfeiriadau a wnaed.
- Gofynnwyd am gyfraniad o £1,000 i dalu am leoliadau hyfforddiant, lluniaeth a chymhorthion cof a chadarnhawyd y byddai'r grŵp Cymunedau Teg a Diogel yn ei ariannu.
- Dywedodd Jonathan Feild fod gan yr Adran Gwaith a Phensiynau swyddogion arbenigol a oedd yn ymweld â'r mwyaf bregus a byddai cael y rhain i ymwneud â'r prosiect yn gallu ychwanegu gwerth at y prosiect.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Craig Jones i gysylltu â Jonathan Feild i gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 'Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif'. |

## 7. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – arweiniad ynghylch craffu

- Cadarnhaodd Gwyneth Ayers fod y ddogfen wedi cael ei dosbarthu er gwybodaeth i'r aelodau. Roedd yr aelodau'n ymwybodol bod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor craffu awdurdod lleol ymgymryd â'r rôl o graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau wedi'i nodi at y diben

hwn. Byddai cofnodion cymeradwy cyfarfod mis Medi yn cael eu rhoi i gyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2017. Bydd Gwyneth Ayers yn mynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol a byddai'n gofyn i bartneriaid ei chynorthwyo os oes angen. Roedd aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am gael mynychu rhai o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel sylwedyddion i'w cynorthwyo i wneud y rôl. Cafodd y cais hwn ei gefnogi gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd Huwel Manley fod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan o'r broses graffu yn Abertawe. Cytunwyd y gellid ystyried hyn maes o law.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Ystyried cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyfarfodydd Pwyllgor Craffu'r Cyngor - Polisi ac Adnoddau, yn y dyfodol. |
| **GWEITHREDU:** | Gwyneth Ayers i drefnu i aelodau Pwyllgor Craffu'r Cyngor - Polisi ac Adnoddau fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. |

**8. Diweddariad ynghylch y Ffrwd Waith**

- Rhoddodd Kate Thomas ddisgrifiad o'r adroddiad ynghyd â'r newyddion diweddaraf am ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd bod dwy o'r ffrydiau gwaith (Cydweithio o ran Ystadau a Seiberdroseddu) wedi nodi dwy neu dair blaenoriaeth allweddol ac wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'r rhain, fel y gofynnodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2017. Fodd bynnag, nid oedd y tair ffrwd waith a oedd yn weddill (Trafnidiaeth, Caffael a Dull Strategol o Ddatblygu Pobl yn Gydweithredol) wedi cwrdd ers cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf.
- Cydnabuwyd y gwaith da a gwblhawyd hyd yn hyn ond gan fod y Cynllun Llesiant wrthi'n cael ei ddatblygu roedd yn bwysig ystyried pa is-grwpiau y byddai ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hangen i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni'r Cynllun. Byddai'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus benderfynu pa adnoddau fyddai ar gael iddo yn y dyfodol a sicrhau bod grwpiau partneriaeth eraill yn cael eu hystyried wrth benderfynu pa strwythur fyddai fwyaf priodol i'w roi ar waith. Cytunwyd bod angen adolygu strwythur y bartneriaeth.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Ystyried adolygu strwythur partneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyfarfod mis Ionawr. |

**9. Blaenraglen Waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

- Yn dilyn y drafodaeth flaenorol, cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar gytuno ar y Cynllun Llesiant ac adolygu strwythur y bartneriaeth.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Bydd y cyfarfod nesaf - 18 Ionawr 2018 - yn canolbwyntio ar gytuno ar y Cynllun Llesiant terfynol a bydd gweithdy ar strwythur y bartneriaeth yn y dyfodol. |

**10. Unrhyw Fater Arall**

- Cyfeiriodd Gwyneth Ayers at wahoddiad yr Athro Jean White am i dîm o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fynd i ddigwyddiad Rhwydwaith Cenedlaethol Cydweithredol y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf yng Nghaerdydd ar 13 Rhagfyr. Gallai hyd at wyth person gynrychioli'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; mae Jenny Israel (Bwrdd Iechyd) a Helen Matthews (yr Adran Gwaith a Phensiynau) wedi cadarnhau y byddant yn bresennol. Cytunwyd y dylai'r trydydd sector ac is-adran Gwasanaethau Plant y Cyngor fod yn bresennol.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Partneriaid i gadarnhau gyda Gwyneth Ayers pwy fydd y cynadleddwyr ychwanegol yn nigwyddiad Rhwydwaith Cenedlaethol Cydweithredol y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf ar 13 Rhagfyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector ac is-adran Gwasanaethau Plant y Cyngor. |

- Dosbarthodd Gwyneth Ayers wybodaeth am 'Ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol ar Ddulliau Gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau

gwasanaethau cyhoeddus' a gofynnodd a ddylid anfon ymateb o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu o sefydliadau unigol. Cytunwyd y dylai ymateb gael ei lunio gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac y gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer llunio ymateb y sefydliadau eraill.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Gwyneth Ayers i ddosbarthu ymateb drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i 'Ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol ar Ddulliau Gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus' er mwyn i bartneriaid ei ddefnyddio, fel sy'n briodol, wrth ymateb fel sefydliadau unigol. |

- Mynegodd Anna Bird bryder, ar ran Sarah Jennings, ynghylch anfoneb a gafwyd ar gyfer cyfraniad at *Newyddion Sir Gâr.* Deallwyd, yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin a Gorffennaf 2017, fod grŵp wrthi'n llunio diweddariad ynghylch cyfathrebu a chostau ar gyfer Newyddion Sir Gâr, ond ni welwyd unrhyw gynigion ynghylch bod partneriaid yn cyllido'r papur newydd.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Gwyneth Ayers i drefnu cyfarfod o Grŵp Cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried yr ymagwedd at Newyddion Sir Gâr yn y dyfodol. |

- Cyfeiriodd Huwel Manley at ffrwd fechan o arian grant ar gyfer y trydydd sector a fyddai'n cael ei lansio yn ddiweddarach yn y mis. Roedd y cyllid dros gyfnod o dair blynedd ac roedd un o'r pedwar maes y rhoddwyd cymorth ar eu cyfer yn ymwneud â helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon, gan gynnwys defnyddio llecynnau glas. Roedd tua £60-70k ar gael – caiff y wybodaeth ei dosbarthu.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Dosbarthu gwybodaeth am arian grant CNC. |

- Rhoddodd Jonathan Feild y newyddion diweddaraf am y sefyllfa staffio yng Nghanolfan Fudd-daliadau Llanelli; o'r 79 yr effeithir arnynt ac y cynigiwyd dileu eu swyddi'n wirfoddol, roedd 40 yn debygol o dderbyn gan adael 39 o staff y byddai angen eu symud cyn diwedd mis Ionawr 2018. Roedd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cynorthwyo drwy roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau am swyddi gwag.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Pawb i roi manylion unrhyw swyddi gwag i Jonathan Feild. |

- Gofynnodd yr Athro Jean White pryd y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cwrdd yn 2018. Cadarnhawyd y bydd y cyfarfodydd nesaf ar 18 Ionawr ac 8 Mawrth ac y byddai holl ddyddiadau 2018 yn cael eu hail-ddosbarthu i'r aelodau.

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDU:** | Anfon neges atgoffa am ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd â'r nodiadau gweithredu. |

**Crynodeb o Gamau Gweithredu – Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:**

| | **Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu** | Pwy | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | Pwyntiau o gyfarfod 16 Tachwedd 2017 | | |
| 1 | Ymgymryd â gwaith pellach gyda phartneriaid ynghylch rhannu gwybodaeth cyn bydd hynny'n cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr. | **Gwyneth Ayers** | Ffocws cyfarfod mis Ionawr wedi newid i'r Cynllun Llesiant a gweithdy. Gohiriwyd i gyfarfod Mawrth 2018. |
| 2 | Pawb i roi gwybod am unrhyw brosiectau eraill sy'n mynd rhagddynt yn ardal Heol yr Orsaf/Ty-isha. | **Pawb** | Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach |
| 3 | Dosbarthu adroddiad cryno ynghylch costau Adolygiadau Dynladdiad Domestig i bartneriaid statudol diogelwch cymunedol. | **Kate Thomas** | Wedi ei gwblhau |
| 4 | Ystyried Strategaeth Dementia Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. | **Gwyneth Ayers** | Dyddiad i'w gadarnhau |
| 5 | Anfon ymateb y Cadeirydd i lythyr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. | **Barry Liles a Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau |
| 6 | Anthony Maynard i ddosbarthu strategaeth ranbarthol ddrafft i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr. | **Anthony Maynard** | I'w ddosbarthu unwaith y bydd ar gael |
| 7 | Anthony Maynard i ddosbarthu dolen i'r Hyfforddiant Grŵp 6 ar gyfer arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus. | **Anthony Maynard** | Wedi ei gwblhau. Danfonwyd gyda'r pwyntiau gweithredu ar 23/11/17. |
| 8 | Cysylltu â Jonathan Feild os hoffech fynd i'r sesiynau i ddysgu rhagor am y gwasanaeth. | **Pawb** | |
| 9 | Dosbarthu copi o'r cyflwyniad i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau. Danfonwyd gyda'r pwyntiau gweithredu ar 23/11/17. |
| 10 | Jonathan Feild i rannu manylion yr Ymgynghorwyr Cyflogwyr gyda phartneriaid. | **Jonathan Feild** | |
| 11 | Cysylltu â Jonathan Feild i gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 'Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif'. | **Craig Jones** | |
| 12 | Ystyried cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyfarfodydd Pwyllgor Craffu'r Cyngor - Polisi ac Adnoddau, yn y dyfodol. | **Gwyneth Ayers** | Parhaus |
| 13 | Trefnu i aelodau Pwyllgor Craffu'r Cyngor - Polisi ac Adnoddau fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. | **Gwyneth Ayers** | Rota mynychu yn ei le. |

| | Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu | Pwy | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 14 | Ystyried adolygu strwythur partneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyfarfod mis Ionawr. | **Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau. Ar agenda 18 Ionawr 2018 |
| 15 | Bydd y cyfarfod nesaf - 18 Ionawr 2018 - yn canolbwyntio ar gytuno ar y Cynllun Llesiant terfynol a bydd gweithdy ar strwythur y bartneriaeth yn y dyfodol. | **Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau. Ar agenda 18 Ionawr 2018 |
| 16 | Partneriaid i gadarnhau gyda Gwyneth Ayers pwy fydd y cynadleddwyr ychwanegol yn nigwyddiad Rhwydwaith Cenedlaethol Cydweithredol y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf ar 13 Rhagfyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector ac is-adran Gwasanaethau Plant y Cyngor. | **Pawb** | Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill. |
| 17 | Dosbarthu ymateb drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i 'Ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol ar Ddulliau Gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus' er mwyn i bartneriaid ei ddefnyddio, fel sy'n briodol, wrth ymateb fel sefydliadau unigol. | **Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau ac ymateb BGC wedi'i anfon i Gynulliad Cymru |
| 18 | Trefnu cyfarfod o Grŵp Cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried yr ymagwedd at Newyddion Sir Gâr yn y dyfodol. | **Gwyneth Ayers** | Cynhaliwyd cyfarfod ar 19 Rhagfyr 2017 a chyflwynwyd papur trafod i gyfarfod BGC mis Ionawr 2018. |
| 19 | Dosbarthu gwybodaeth am arian grant CNC. | **Huwel Manley** | |
| 20 | Pawb i roi manylion unrhyw swyddi gwag i Jonathan Feild. | **Pawb** | |
| 21 | Anfon neges atgoffa am ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd â'r nodiadau gweithredu. | **Gwyneth Ayers** | Wedi ei gwblhau. Danfonwyd gyda'r pwyntiau gweithredu ar 23/11/17. |